

Croeso i'n newyddlen sy'n dod â'r diweddaraf i chi gan Uchelgais Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru. Os hoffech chi gael gwybodaeth bellach am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru.

# DWEUD EICH DWEUD AM DDYFODOL TRAFNIDIAETH YNG NGOGLEDD CYMRU

Rydym wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus fydd yn para 12 wythnos, ac yn rhoi cyfle i breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr i lunio dyfodol teithio yn ein rhanbarth.

Rydym yn eich gwahodd i rannu eich adborth ar ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r ddogfen yn nodi cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan gwmpasu pob dull trafnidiaeth, gan gynnwys rheilffordd, ffyrdd, bws, cerdded a beicio. Ei nod yw darparu gwell opsiynau teithio, gwella cysylltedd digidol a lleihau effeithiau amgylcheddol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru a chwe Chyngor Gogledd Cymru, ynghyd â Thrafnidiaeth Cymru a phartneriaid o Arup wedi datblygu'r cynllun drafft sy'n ddyletswydd statudol ar Gyd-bwyllgor Corfforedig y rhanbarth.




Rhowch eich adborth erbyn 23:59 ar 14eg Ebrill 2025 os gwelwch yn dda, trwy ymweld â'n Ystafell Ymgysylltu Rhithiol

Ystafell Ymgystyllu Rhithiol

## Beth yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) yn cael eu gweithredu i ddarparu fframwaith ar gyfer mwy o gydweithio rhwng cynghorau. Yn ogystal ag yng Ngogledd Cymru, mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer Canolbarth Cymru, De-ddwyrain Cymru a De-orllewin Cymru.

Sefydlodd rheoliadau Llywodraeth Cymru y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phennwyd eu dyletswyddau statudol - sef paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Datblygu Strategol. Yn ogystal, mae gan Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyfrifoldeb i wella a hyrwyddo lles economaidd eu rhanbarth.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnwys chwe awdurdod lleol y rhanbarth - Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd ond yn ymwneud â materion cynllunio rhanbarthol.

Yng Ngogledd Cymru mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi mabwysiadu brand **Uchelgais Gogledd Cymru.** Mae hyn yn golygu, ochr yn ochr â darparu Cynllun Twf y rhanbarth, fod Uchelgais Gogledd Cymru wedi dod yn Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn atebol am ei gyfrifoldebau.

## MAE PORTAL SGILIAU GOGLEDD CYMRU WEDI LANSIO'N SWYDDOGOL

Mae'r Portal yn dangos y swyddi gwag, hyfforddiant, gwybodaeth am lwybrau gyrfa a chyfleoedd i dyfu busnesau sydd ar gael i bobl a chyflogwyr yn y rhanbarth.

Mae'r Portal, sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU, am ddim i'w ddefnyddio ac mae'n blatfform i ddarganfod ystod eang o gyfleoedd mewn un lle. Gallwch ddod o hyd i ddigwyddiadau lleol, adnoddau a mynediad at ddarparwyr hyfforddiant a chymorth i'ch helpu i ddod o hyd i swydd a symud ymlaen yn eich gyrfa, datblygu'ch staff neu dyfu eich busnes.

NORTH WALES **SKILLS** portal **SGILIAU** GOGLEDD CYMRU

[Darganfod]

## CANOLFAN BIOTECHNOLEG AMGYLCHEDDOL+ WEDI'I ARWYDDO

Rydym yn falch o lofnodi cytundeb buddsoddiad Cynllun Twf gwerth £2.96m ar gyfer prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol+ ym Mhrifysgol Bangor. Bydd y buddsoddiad yn cael ei wario ar offer a gofod labordy, gan archwilio dros 1,000 o ensymau i greu dewisiadau amgen carbon isel yn lle prosesau gweithgynhyrchu. Bydd hefyd yn darparu cyfleoedd cadwyn gyflenwi a chyflogaeth i fusnesau a phreswylwyr ar draws y rhanbarth - gan ei wneud yn ddatblygiad trawsnewidiol i Ogledd Cymru.




[Darllen Mwy]



## CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD NEWYDD

Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr, etholwyd y Cynghorydd Mark Pritchard, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Charlie McCoubrey, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn Is-gadeirydd.

Yn dilyn hynny, ym mis Ionawr, etholwyd y ddau hefyd yn Gadeirydd ac Is-Gadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

[Darllen Mwy]

## PARTNERIAETH BWYD-AMAETH NEWYDD

Yn ddiweddar, ochr yn ochr â Tyfu Canolbarth Cymru, M-SParc ac AberInnovation roeddem yn falch o gyhoeddi lansiad swyddogol Sefydliad Rheoli Clwstwr (CMO) i ysgogi arloesedd technoleg amaeth a thechnoleg bwyd ledled Canolbarth a Gogledd Cymru.

Bydd y CMO yn cydlynu gweithgareddau ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyllido sydd ar gael yn y clwstwr lleol drwy brosiect a fydd yn rhedeg am ddwy flynedd i ddechrau gan ddefnyddio cyllid gan Innovate UK. Y nod yw cryfhau cydweithio rhwng busnesau, sefydliadau ymchwil, a phartneriaid rhanbarthol i hybu arloesedd a chystadleuaeth yn y sectorau bwyd-amaeth a thechnoleg amaethyddol.



Darllen Mwy

## CRONFA YNNI GLÂN YN SYMUD YMLAEN

Hwyrach eleni byddwn yn lansio ein Cronfa Ynni Glân i gefnogi prosiectau ynni gwyrdd!

Roeddem yn falch iawn o benodi dau Gynghorydd Cronfa profiadol a fydd yn datblygu dwy is-gronfa ar gyfer y cynllun. Bydd UMi yn arwain is-gronfa sector preifat, gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru yn cydweithio ar is-gronfa sector gwirfoddol.


Pan fydd yn cael ei darparu, bydd y prosiect yn cyflawni targedau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio ac mae elfen o berchnogaeth leol - sy'n golygu y bydd busnesau, cymunedau neu sefydliadau gwirfoddol lleol yn berchen ar neu'n cael cyfran ynddynt. Wrth wneud hynny, mae hyn yn ein galluogi i sicrhau y bydd buddion y cynllun, fel swyddi, ynni ac incwm, yn parhau i aros yn lleol.

Darllen Mwy

## CANLLAWIAU AR BARATOI BIDIAU A CHEISIADAU AM GYLLID

Er mwyn cefnogi mentrau sy'n ceisio am y Gronfa Ynni Glân pan fydd yn lansio, yn ogystal â bidiau i ffynonellau eraill, rydym wedi datblygu canllawiau ar ein gwefan. Esbonnir ymarferoldeb defnyddiol ac mae dogfennau ar gael sy'n canolbwyntio ar ymarferoldeb prosiectau, datblygu cais am gyllid, cwestiynau cyffredin a'r cymorth pellach sydd ar gael.


Darllen Mwy









## SAFLE GLANNAU DYFRDWY YN DENU BUDDSODDIAD SECTOR BREIFAT

Mae cydweithio effeithiol rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a The Circular Economy – y sefydliad sy'n darparu'r Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy - wedi arwain at brosiect y Cynllun Twf yn sicrhau cyllid sector preifat llawn. Mae hyn yn rhyddhau £6.4m o gyllid y Cynllun Twf, gall rŵan ei gyfeirio i fannau eraill yn y rhanbarth i gefnogi datblygiad a thwf economaidd. Pan fydd yn weithredol, bydd y safle yn defnyddio gwastraff bwyd lleol i gynhyrchu trydan gwyrdd at ddefnydd masnachol, creu cyfleoedd cyflogaeth, lleihau allyriadau $CO_2$, a helpu safleoedd gweithgynhyrchu lleol fel Toyota Manufacturing i gyrraedd eu targedau datgarboneiddio.

Darllen Mwy



## DATBLYGIAD ARLOESOL NEWYDD YN AGOS AT EI GWBLHAU

Mae prosiect adeiladu cyntaf y Cynllun Twf yn prysur ddod yn realiti wrth i'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter (EEOC) newydd ddod i'r amlwg ym Mhrifysgol Wrecsam. Gyda'r nod o gael ei chwblhau ym mis Mai, bydd y ganolfan chwyldroadol hon yn darparu canolfan arbenigol sy'n cynnig cymorth i fusnesau gweithgynhyrchu rhanbarthol i leihau effaith amgylcheddol eu cynhyrchion a'u prosesau.

## ELUSEN NEWYDD 2025

Rydym yn falch o ddangos ein cefnogaeth i'r Ganolfan Cymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru fel ein dewis fel ein elusen y flwyddyn ar gyfer 2025. Dechreuon ni gyda'n hymgyrch codi arian wrth i 2024 ddod i ben drwy gasglu rhoddion gan staff i lenwi bagiau lles ar gyfer yr elusen. Rhoddodd ein tîm 45 bag, a oedd yn cynnwys pethau ymolchi, llyfrau ac eitemau hunanofal a fydd yn cael eu trosglwyddo i fenywod, dynion a phlant sy'n defnyddio'r ganolfan.








Os hoffech ragor o wybodaeth am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru neu ewch i uchelgaisgogledd.cymru.